Adolygiad o Ddosbarthiadau Etholiadol a Mannau Pleidleisio

Dogfen Ymgynghori

Mae'r Cyfnod Ymgynghori yn para o
9 Medi tan 11 Hydref 2019.

1. Cefndir i'r Adolygiad

Dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, mae gan y Cyngor ddyletswydd i rannu ei ardal i ddosbarthiadau etholiadol ac i ddynodi man pleidleisio i bob dosbarth. Hefyd mae'n rhaid adolygu'r trefniadau hyn. Cyflwynodd y Ddeddf Gweinyddiaeth Etholiadol 2006 ddyletswydd ar holl awdurdod lleol ym Mhrydain Fawr i adolygu ei ddosbarthiadau etholiadol a mannau pleidleisio.

2. Diffiniadau

Dosbarth etholiadol yw ardal ddaearyddol a grëwyd gan yr isadran o ardal etholiadol h.y. etholaeth, ward dosbarth neu adran i ardaloedd llai.

Man pleidleisio yw adeilad neu ardal lle mae gorsafoedd pleidleisio yn cael eu lleoli.
Gorsaf bleidleisio yw'r ystafell neu ardal o fewn man pleidleisio lle mae'r pleidleisio'n digwydd.

3. Y Broses Adolygu

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi hysbysiad eu bod yn cynnal adolygiad ac yn ymgynghori â'r Swyddog Canlyniadau ar gyfer pob Etholaeth Seneddol yn ardal y Cyngor.

Yna mae'r Cyngor yn gwahodd unrhyw sylwadau ar y cynigion. Cyhoeddir y papur ymgynghori ar wefan y Cyngor, a bydd hefyd yn cael ei hanfon i Gynghorwyr, Aelodau Seneddol, partion gwleidyddol lleol ac unrhyw grwpiau neu unigolion eraill sydd â diddordeb, gan gynnwys y rhai hynny sydd ag arbenigedd penodol mewn perthynas â mynediad i eiddo neu gyfleuster i unigolion sydd â gwahanol fathau o anabledd.

4. Amserlen Adolygu Polisi

Mae amserlen yr adolygiad wedi'i nodi isod:

Cyhoeddi Hysbysiad o Adolygiad	Dydd Llun 9 Medi 2019
Adolygiad yn Dechrau	Dydd Llun 9 Medi 2019
Dyddiad cau derbyn sylwadau'r cyhoedd ar yr adolygiad	Dydd Gwener 11 Hydref 2019
Cyhoeddi sylwadau'r Swyddog Canlyniadau	Dydd Gwener 14 Hydref 2019
Dyddiad cau derbyn sylwadau'r cyhoedd ar sylwadau a chynigion y Swyddog Canlyniadau	Dydd Gwener 28 Hydref 2019
Cyflwyno cynigion terfynol i'r Cyngor	Dydd Mercher 18 Rhagfyr 2019

5. Bwriad yr Adolygiad

Mae’r ddogfen ynghlwm yn nodi manylion y dosbarthiadau etholiadol a mannau pleidleisio cyfredol ar gyfer y 47 Adran Etholiadol yn Wrecsam.

Mae’r Cyngor yn gwerthfawrogi cydweithrediad mannau pleidleisio am ddarparu eu hadeilad am y dydd fel y gall etholwyr gael rhywle addas i bleidleisio.

Mae’r Adolygiad yn ceisio mynd i’r afael â materion sydd wedi codi, naill ai oherwydd bod canolfannau cymuned ac ystafelloedd capel wedi cau, neu broblemau yn codi yn ystod etholiadau diweddar a byddant hefyd yn cael adborth gan staff yr orsaf bleidleisio a’r arolygwyr.

Oherwydd bod adolygiad Comisiwn Ffin a Democratiaeth Leol (LDBC) o drefniadau etholiadol yn cael ei gynnal, mae adolygiad rhagarweiniol o ddosbarthiadau etholiadol cyfredol wedi’u cyflawni, ac oni bai bod unrhyw sylwadau wedi’u gwneud fel rhan o’r ymgynghoriad hwn, ni fydd newidiadau arfaethedig i ddosbarthiadau etholiadol yn cael eu cyflwyno ar yr adeg hon. Efallai y bydd rhaid cynnal adolygiad dros dro pellach o'r ardal gyfan yn dilyn cyhoeddiad o gynigion terfynol LDBC.

Egwyddorion gwaelodol i ddull y Cyngor i ddosbarthiadau etholiadol a mannau pleidleisio fydd:

(a) Sicrhau hyd y gellir bod pob dosbarth etholiadol yn cael gorsaf bleidleisio o fewn ei ffiniau.
(b) Ceisio adnabod mannau pleidleisio newydd mewn ardaloedd lle nad oes digon o ddarpariaeth bresennol.
(c) Sicrhau, cyn belled ag sy'n ymarferol, bod mannau pleidleisio yn hygyrch i bobl gydag anableddau.
(d) Sicrhau bod pob etholwr gyda’r cyfleusterau rhesymol i bleidleisio sydd yn ymarferol yn yr amgylchiadau.

6 Gwneud Sylwadau

Gall unrhyw etholydd wneud sylwadau. Pan fydd rhywun yn awgrymu newid man pleidleisio, dylem eu hannog i roi rhesymau am hyn, ac i awgrymu mannau pleidleisio arall i alluogi ymgynghoriad pellach.
.
Mae’n rhaid i unrhyw sylwadau ddod i law cyn dydd Gwener, 11 Hydref 2019.

Dylid cyfeirio holl sylwadau at:
Tîm Craffu
Adran Cwsmer a Llywodraethu

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Neuadd y Dref
Wrecsam
LL11 1NF

neu drwy e-bost at: pleidleisio@wrexham.gov.uk